OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1149

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020

## RHAN 3

Cyfyngiadau ar fusnesau a gwasanaethau y mae eu mangreoedd fel arfer ar agor i'r cyhoedd

### PENNOD 2

Busnesau a gwasanaethau y mae rhaid i'w mangreoedd gau

**Cau mangreoedd a ddefnyddir gan fusnesau a gwasanaethau penodol**

**11.**—(1) O ran person sy'n gyfrifol am gynnal busnes neu ddarparu gwasanaeth a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 1—

(a) rhaid iddo gau i aelodau'r cyhoedd unrhyw fangre a weithredir fel rhan o'r busnes neu'r gwasanaeth, a

(b) ni chaiff gynnal y busnes neu'r gwasanaeth yn y fangre honno ac eithrio yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Nid yw paragraff (1) yn atal—

(a) gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio neu waith arall i sicrhau bod mangre yn addas i'w defnyddio pan na fydd paragraff (1) yn gymwys i'r fangre mwyach;

(b) defnyddio mangre at unrhyw ddiben y mae Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn gofyn amdano neu'n ei awdurdodi;

(c) defnyddio mangre i ddarlledu heb gynulleidfa yn bresennol yn y fangre (pa un ai dros y rhyngrwyd neu fel rhan o ddarllediad radio neu deledu);

(d) defnyddio mangre ar gyfer darparu gwasanaethau neu wybodaeth (gan gynnwys gwerthu, llogi neu ddanfon nwyddau neu wasanaethau)—

(i) drwy wefan, neu fel arall drwy gyfathrebiad ar lein,

(ii) dros y ffôn, gan gynnwys drwy neges destun, neu

(iii) drwy'r post.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 11 mewn grym ar 23.10.2020 am 6.00 p.m., gweler **rhl. 1(3)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020, PENNOD 2.